| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 22ain 2023 |
| **TEITL** | Prosiectau Cyfalaf AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn. Cynllun grant gan Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau cyfalaf yn y Parciau Cenedlaethol a’r AHNE yw Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLC).

1.2 Mae prosiectau TCLC yn cwmpasu tair blynedd (2022-25) ac rydym bellach felly yn yr ail flwyddyn. Adroddwyd ar brosiectau y flwyddyn gyntaf i’r cyfarfod o’r Cydbwyllgor a gynhaliwyd yn mis Mawrth o’r flwyddyn hon.

## 2.0 THEMÂU Y PROSIECTAU CYFALAF

2.1 Gosodwyd themâu gan Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf oedd yn rhan o gynllun TCLC sef:

- Bioamrywiaeth ac adfer natur
- Dadgarboneiddio
- Cymunedau gwydn a gwyrdd
- Twristiaeth Gynaliadwy

## 3.0 PROSIECTAU CYFALAF TCLC LLŶN 2023-24

3.1 **Adnewyddu grisiau Porth Ysgo -** mae’r grisiau yma ar lwybr cyhoeddus yn arwain i lawr i draeth bychan Porth Ysgo ar arfordir deheuol Llŷn. Fe’u gosodwyd yn wreiddiol tua 30 mlynedd yn ôl ond erbyn hyn mae eu cyflwr wedi  dirywio. Bydd y prosiect yn cynnwys tynnu y grisiau pren gwreiddiol a gosod grisiau newydd gan ddefnyddio coed lleol wedi eu trin. Mae’r llwybr wedi ei gau yn ffurfiol am gyfnod er mwyn i’r gwaith gael ei gwblhau (gwaith i ddechrau yn fuan).

3.2 **Tiroedd Comin -** mae'r gwaith ar welliannau i diroedd comin yr AHNE eisoes wedi dechrau llynedd – mae hwn yn brosiect dros gyfnod o dair mlynedd. Y tiroedd comin o dan sylw yw Mynythno, Horeb, a Rhos Botwnnog. Mae'r gwelliannau yn cynnwys gwaith barbio a chlirio, gwella mynediad, trin rhywogaethau ymledol a gosod byrddau gwybodaeth.

3.3 **Coed cynhenid** – dyma brosiect dwy flynedd a'r bwriad ar gyfer y flwyddyn ariannol yma oedd adnabod safleoedd addas i blannu coed cynhenid o fewn yr AHNE drwy gynnal ymchwil ac ymgynghoriadau. Yn dilyn hyn bwriedir plannu coed yn ystod y gaeaf nesaf.

3.4 **Rhywogaethau ymledol estron -** mae planhigion estron megis jac y neidiwr a changlwm tsapanaeaidd yn broblem gynyddol ar draws Llŷn, gyda sgil-effeithiau difrifol ar fioamrywiaeth. Bwriad y prosiect yn y flwyddyn hon oedd adnabod lleoliadau ar gyfer eu trin a pheilota gwahanol driniaethau. Bydd mwy o weithredu uniongyrchiol yn erbyn y planhigion yn y flwyddyn arainnol nesaf.

3.5 **Y Ganolfan Llithfaen** – mae hwn yn brosiect mwy sylweddol na'r gweddill ar gyfer adfer ac uwchraddio Y Ganolfan yn Llithfaen. Mae'r Ganolfan wedi bod ar gau ers blynyddoedd bellach oherwydd problemau efo cyflwr yr adeilad. Oherwydd cost sylweddol y gwaith bu raid ymgeisio am arian ychwanegol (o Gronfa Rhannu'r Budd). Ar hyn po bryd mae'r gwaith allan i dendr.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.